Eisoes mae paratoadau ar gyfer Eisteddfod yr Ysgol ar Ddydd Gŵyl Dewi ac Eisteddfod yr Urdd yn mynd rhagddynt ac edrychir ymlaen at gystadlu brwd.

Bwriad Cymdeithas Rhieni Athrawon yr ysgol yw cynnal dau weithgaredd yn ystod yr wythnosau nesaf sef Ras hwyaid noddedig ar yr afon Stewi ac yna Cwis i rieni a phlant yn yr ysgol.

Derbyniodd plant dosbarth 4 lythyr o bencadlys y BBC yn Llundain ddiwedd Ionawr yn diolch am eu hymateb i un o raglenni Zig Zag ar y teledu. Sylwasant nad oedd nifer y milwyr y tu mewn i geffyl pren Troy ar y rhaglen yn cyfateb i'r hyn yn y llyfr.